

# “MAEN NHW WEDI’N HANGHOFIO NI”

## ADRODDIAD O AROLWG LLIFOGYDD 2020

**Comisiynwyd gan**
Leanne Wood AS a chynghorwyr Plaid Cymru yn Rhondda Cynon Taf ynghylch y llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020

*Ysgrifennwyd gan C. AMOSS.*

Plaid Cymru
Party of Wales

# Cynnwys


04 Datganiad gan Leanne Wood AS
05 Cyflwyniad
06 Crynodeb Weithredol
08 Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd
16 Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda
30 Llifogydd yn Etholaeth Cwm Cynon
34 Effaith a Sgil-effeithiau
37 Argymhellion
38 Atodiad

# Datganiad gan Leanne Wood AS



Ym mis Chwefror, trowyd bywydau llawer o bobl wyneb i waered pan arweiniodd Storm Dennis at ddŵr yn llifo i'w cartrefi a'u busnesau. Yr oedd rhai pobl wedi dioddef llifogydd cynt a gwelodd eraill lifogydd wedi'r dyddiad hwnnw ym mis Chwefror, ond crewyd mwy o ddifrod yn ystod yr un sbel honno o dywydd garw nac a welwyd erioed yn ein cymunedau.

Mae gwyddonwyr wedi bod yn rhybuddio ers blynyddoedd y bydd effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael eu teimlo gan fwy o bobl wrth i amser fynd heibio. Yn ogystal â gwrthweithio achosion yr argyfnwg hinsawdd, mae gan lywodraethau – lleol a chenedlaethol – ddyletswydd i gadw pobl yn ddiogel a gwneud beth bynnag sy'n bosib i atal pobl rhag dioddef llifogydd. Dylent hefyd roi cefnogaeth a gwneud popeth yn eu gallu i amddiffyn pobl ac eiddo yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi ymatebion arolwg o bobl a ddioddefodd lifogydd yn Rhondda Cynon Taf ac yn gwneud argymhellion ar gyfergweithredu. Mae hefyd yn dangos cost ddynol y llifogydd hyn a'r effaith a gaiff ar iechyd corfforol a meddyliol llawer yr effeithiwyd arnynt – rhywbeth sy'n boenus o absennol o'r dogfennau a gynhyrchwyd gan yr awdurdodau hyd yma.

Y mater allweddol i ni ym Mhlaid Cymru yw y dylid comisiynu ymchwiliad annibynnol cyn gynted ag sydd modd. Rhaid i hwn gael cylch gorchwyl clir er mwyn darganfod beth ddigwyddodd. Rhaid iddo weithio i amserlen dynn a rhaid argymell camau i atal trychinebau tebyg rhag digwydd i bobl yn y dyfodol.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at yr achos dros ymchwiliad o'r fath.



**Leanne Wood AS / MS, Rhondda**

**Cefnogwyd gan Grŵp Cynghorwyr Plaid Cymru ar Gyngor Rhondda Cynon Taf:** Cyng. Pauline Jarman, Arweinydd; Cyng. Heledd Fychan, Dirprwy Arweinydd; Cyng. Alison Chapman, Cyng. Alun Cox, Cyng. John Cullwick, Cyng. Geraint Davies, Cyng. Joshua Davies, Cyng. Sera Evans, Cyng. Danny Grehan, Cyng. Eleri Griffiths, Cyng. Larraine Jones, Cyng. Karen Morgan, Cyng. Shelley Rees-Owen, Cyng. Elyn Stephens, Cyng. Maureen Weaver, Cyng. Emyr Webster, Cyng. Julie Williams.

# Cyflwyniad

Crynodeb yw'r adroddiad hwn o arolygon a gynhaliwyd gan Blaid Cymru yn y Rhondda a Phontypridd yn dilyn y llifogydd ym misoedd Chwefror a Mehefin 2020, yn ogystal â thystiolaeth gan gynghorwyr sy'n cynrychioli Cwm Cynon. Dywedodd Cyngor Rhondda Cynon Taf Council fod 1476 eiddo wedi eu gorlifo yn y sir. Amcangyfrifwyd y gost i'r seilwaith cyhoeddus fel £60m, gyda nifer o briffyrdd, waliau afonydd, cylfatiau a phontydd yn cael eu difrodi'n ddifrifol. Mae'r cyngor, ynghyd â Dŵr Cymru  a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ysgrifennu eu hadroddiadau eu hunain fel rhan o'r broses Adran 19. Adroddiadau technegol fydd y rhain. Fodd bynnag, yr hyn mae'r adroddiad hwn yn wneud yw ymchwilio i'r hanesion personol yn y cymunedau.  Mae'n edrych ar y modd yr effeithiodd yr hyn ddigwyddodd ar fywydau pobl. Mae'n nodi methiannau posib gan yr awdurdod lleol a'r cyrff perthnasol, ac yn galw ar ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd.



# Crynodeb Weithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r llifogydd a ddigwyddodd yn Rhondda Cynon Taf ar 16 Chwefror 2020 yng ngeiriau'r rhai a'u dioddefodd, ac yn edrych i mewn i'r data a gasglwyd o arolygon i ganfod beth ddigwyddodd yn ystod Storm Dennis, gan ddechrau gyda Phontypridd. Bydd yr adroddiad wedyn yn symud ymlaen at y llifogydd yn y Rhondda, ar 16 Chwefror 2020 yn ystod Storm Dennis ac yna wedyn bedwar mis yn ddiweddarach ar Fehefin 17. Mae tystiolaeth hefyd o Gwm Cynon, lle dioddefodd llawer o gymunedau hefyd lifogydd ym mis Chwefror 2020

Crëwyd yr arolygon er mwyn casglu ynghyd brofiadau a thystiolaeth y cymunedau yr effeithiwyd arnynt. Mae proses Adran 19 y cyngor yn dechnegol dechnegol a logistaidd, ac nid yw'n rhoi llawer o gyfle i ddeall dilyniant ac effaith digwyddiadau o agwedd sy'n canoli fwy ar bobl. Daliodd yr arolygon brofiadau'r rhai a ddioddefodd yn eu geiriau eu hunain. Nod hyn oedd helpu i fod yn sail o wybodaeth i waith Leanne Wood AS a'r tîm o gynghorwyr Plaid Cymru yn Rhondda Cynon Taf, er mwyn iddynt fod yn y sefyllfa orau i helpu trigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt. Graddfa'r dinistr a ddigwyddodd, anallu hyd yma yr asiantaethau i gytuno ar bwy sy'n gyfrifol ac yn atebol, yn ogystal â chymhlethdod yr effaith ar gymaint o wasanaethau, asiantaethau, awdurdodau a dinasyddion sydd wedi arwain Plaid Cymru i alw am ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac yn ysgrifenedig. Ysgrifennwyd yr arolwg ar-lein yn Google Forms a gwahoddwyd aelodau'r gymuned i gyfrannu trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook. Dosbarthwyd arolwg ysgrifenedig hefyd yn y Rhondda, er mwyn gwneud yn siŵr y gallai'r sawl heb fawr o gysylltiad â'r rhyngrwyd hefyd gyfrannu. Ymatebodd cyfanswm o 137 i'r arolwg ar draws y Rhondda a Phontypridd. Yr oedd y cwestiynau yn gyfuniad o gwestiynau oedd yn galw am atebion ie/na a chwestiynau mwy agored er mwyn gallu ymateb yn fwy personol a manwl. O ran Cwm Cynon, rhoddodd cynghorwyr lleol dystiolaeth er mwyn rhoi darlun o'r sefyllfa a effeithiodd ar y cymunedau yno.

Canfu'r arolwg nid yn unig fod 100% o'r ymatebion eisiau ymchwiliad annibynnol ond bod dryswch a rhwystredigaeth ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, a pham. Yr oedd yr ymatebion yn amrywio o "glaw trwm" neu "Storm Dennis" i achosion penodol o gylfatiau wedi cau at fethiannau'r cyngor, o sibrydion fod y llifddorau yng Nghronfa Pontsticill ymhellach i fyny'r cwm wedi eu hagor yn rhy hwyr, neu'n rhy gyflym, heb fawr ddim cyfathrebu gyda'r llifddorau yn is i lawr. Soniodd nifer o ymatebwyr am amddiffynfeydd llifogydd gwael ar yr Afon Taf ym Mhontypridd, ac yr oedd llawer yn y Rhondda yn beio cwympo'r coed ar lethrau'r mynyddoedd a systemau draenio gwael, sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn rhannu tystiolaeth am effaith anhraethol y gorlifo, ar arian pobl a'u heiddo, ac ar eu hiechyd emosiynol a meddyliol. Trafododd lawer straen y cyfan a'r ffaith eu bod yn

# Crynodeb Weithredol

ofni glaw trwm, yn ogystal â phryderon dwys am ddioddef gorlifo eto.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau am fethiannau allweddol ar ran yr awdurdodau - er enghraifft, gwasanaeth gwael a diffyg cyfathrebu effeithiol. Daw i'r casgliad fod ymchwiliad annibynnol dan arweiniad arbenigwyr yn hanfodol er mwyn treiddio'n ddyfnach i'r materion a godir yma ac ymchwilio i dystiolaeth bellach.

**Rhaid i ni gael eglurder ynghylch yr hyn a ddigwyddodd a phwy sy'n gyfrifol am ofalu na fydd unrhyw fethiannau yn digwydd eto. Rhaid dysgu gwersi fel bod cymunedau yn fwy gwydn yn wyneb digwyddiadau argyfyngus fel hyn yn y dyfodol.**



# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd


DE CYMRU
SOUTH WALES
FG13 EJC
WG12 FKT

# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd

Cyhoeddwyd rhybudd llifogydd 'difrifol' am 9:20pm ar nos Sadwrn 15 Chwefror ar hyd yr Afon Taf. Dal i godi wnaeth y dŵr trwy gydol y nos nes cyrraedd lefelau nas gwelwyd o'r blaen, a gorlifodd yr afon ei glannau. Yn oriau mân bore Sul 16 Chwefror, cyhoeddwyd rhybudd tywydd 'coch' prin, sy'n golygu "perygl i einioes". Yn nes ymlaen, deffrodd Pontypridd i weld y dinistr a achosodd y llifogydd. Roedd yr Afon Taf wedi gorlifo canol tref Pontypridd (llun uchod) a'r hyn a amcangyfrifwyd fel 1000 o gartrefi a busnesau ar lannau'r afon yn yr etholaeth, yr holl ffordd i lawr gwastadeddau'r afon trwy Drefforest a Nantgarw. Cafodd llawer o bobl eu hachub o'u tai gan y gwasanaethau brys, a'u cymryd i lefydd diogel. Erbyn nos Sul, roedd llawer o'r dŵr wedi cilio'n ôl i'r afon ac yr oedd y gwaith glanhau wedi dechrau, er bod rhybuddion llifogydd yn dal yno.

Ymhellach i fyny'r cwm tuag at Drehafod, gorlifodd y dŵr i 44 eiddo oherwydd i system ddraenio'r awdurdod lleol a gorsafoedd pwmpio Dŵr Cymru gael eu llethu gan ddŵr wyneb. Doedd dim modd teithio ar hyd y briffordd sy'n cysylltu Pontypridd â Chymoedd y Rhondda, yr A4058, wrth i ddŵr arllwys dros lein y rheilffordd, gan gronni ar y ffordd a llifo'n ôl i'r pentref. Oherwydd hyn doedd dim modd teithio, a rhoes hyn fwy o rwystrau ar ffyrdd gweithwyr a'r gwasanaethau brys oedd yn ceisio ymateb i'r sefyllfa enbyd.



Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr ddisgrifio beth ddigwyddodd yn eu geiriau eu hunain. Dywedodd y rhai yr effeithiwyd arnynt fod y dyfroedd wedi codi "yn sydyn" a llifo i lawr y stryd "fel tsunami" heb fawr ddim amser i ddianc. Boddodd y dyfroedd geir a lloriau isaf tai. Dywedodd llawer ei fod yn "codi ofn" anhygoel, gan esbonio iddo fynd "o ddim i hyd at 6tr o ddŵr mewn 15 munud" ac nad oedd fel "llif normal". Dywedodd llawer o ymatebwyr nad dim ond y glaw trwm a'r Afon Taf yn gorlifo oedd yr achos, bod rhywbeth arall yn sicr o fod wedi digwydd; dywedodd rhai ymatebwyr fod "rhywun wedi gwneud camgymeriad ofnadwy". Soniodd mwyafrif mawr o ymatebwyr ym Mhontypridd y llifddorau yn Argae Pontsticill yn


# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd

“cael eu hagor” a bod y dŵr oedd weddill yn llifo i lawr Afon Taf. Yr oedd rhai ymatebwyr yn dyfalu bod y llifddorau ym Merthyr wedi eu hagor, ond nid yng Nghaerdydd, gyda’r canlyniad fod dŵr yr afon wedi cronni ac wedi gorlifo’r glannau.

Nid oes yr un o’r awdurdodau swyddogol wedi cadarnhau hyn, a chafodd cynghorwyr lleol sicrwydd nad oes sail i’r ofnau hyn. Mae’r cymunedau, er hynny, yn dal yn amheus.

Mae modd gweld graddfa’r difrod a achoswyd gan y llifogydd yn yr atebion i’r cwestiwn hwn isod.

Canfu’r arolwg i ymatebwyr ym Mhontypridd y bu’n rhaid i 78.2% o ymatebwyr symud allan o’u tai oherwydd y difrod a wnaeth y llifogydd (graff isod).





O ran cefnogaeth a chymorth, er i lawer yn yr arolwg ddweud, oherwydd uchder llif y dŵr, na fuasai bagiau tywod wedi bod o werth, cafodd 87.3% o’r rhai a holwyd ym Mhontypridd broblemau i gael gafael ar fagiau tywod ymlaen llaw (gweler y graff isod).

Credai hanner yr ymatebwyr y gallasai llifddorau fod wedi atal dŵr rhag mynd i mewn i’w tai; yr oedd eraill yn credu bod y dŵr yn rhy uchel.

Dywedodd llawer o ymatebwyr iddynt lwyddo i siarad â rhywun “swyddogol” o’r Cyngor neu awdurdod arall yn y dyddiau wedi’u llif. Er hynny, bu rhai yn aros wythnosau, ac y mae rhai ymatebwyr eraill heb gael ateb o gwbl gan yr awdurdodau perthnasol.

# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd




**Rôl Cyngor Rhondda Cynon Taf**

Pan ofynnwyd am rôl y cyngor yn y llifogydd a beth allent wneud i wella, gofynnodd ymatebwyr am fwy o help a chefnogaeth, o ran paratoi a hefyd i lanhau. Yn benodol, honnodd llawer o ymatebwyr "esgeulustod" gan y cyngor, oherwydd bod "systemau draenio wedi eu cau a heb eu cynnal" ac "ni roddwyd bagiau tywod" ac yr oeddent yn teimlo "wedi eu gadael ar eu pennau eu hunain" i ddelio ag effaith y llifogydd. Gofynnodd ymatebwyr am fwy o gefnogaeth gan y cyngor yn eu galwad ar i CNC a Dŵr Cymru wella amddiffynfeydd llifogydd. Galwodd llawer o ymatebwyr am garthu'r Afon Taf, os byddai hynny'n briodol. Mae awgrymiadau hefyd am gynllun gan y cyngor neu gyllid penodol i ddarparu llifddorau i'r tai sydd mewn mwyaf o berygl. Yr oedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr hefyd yn gofyn am gynnal draeniau mewn modd mwy cynhwysfawr, am eu bod o'r farn bod hyn yn cyfrannu'n sylweddol i'r llifogydd dŵr wyneb. Awgrymodd chwech o ymatebwyr na allai draeniau gwael yn eu stryd hwy ymdopi â glaw trwm cyn y llifogydd, gyda phyllau mawr o ddŵr yn ymddangos yn rheolaidd. Adeg yr arolwg (Gorffennaf 2020), yr oedd aelwydydd yn dal i aros am i'r draeniau gael eu glanhau yn broffesiynol gan y cyngor. Bu'n rhaid i drigolion yn y Ddraenen Wen glirio'r draeniau eu hunain cystal ag y gallent oherwydd bod gormod o ofn arnynt i aros i'r cyngor eu clirio.

Gwnaeth pobl fwy o awgrymiadau, gan gynnwys gwybodaeth am 'barthau perygl llifogydd' trwy hysbysiadau treth y cyngor, a sefydlu system effeithiol o rybuddio am lifogydd fel rhan o greu'r 'parthau'. Mae pobl hefyd eisiau gweld waliau llifogydd uwch, gwell cyfathrebu gyda thrigolion, a chyllid i osod mesurau yn eu lle i ofalu na fydd hyn yn digwydd eto..

**Rôl Dŵr Cymru**

Pan ofynnwyd am rôl Dŵr Cymru yn y llifogydd a'r hyn y gallant wneud i helpu, yr oedd ymatebwyr yn ddryslyd ynghylch eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Honnodd llawer o ymatebwyr o Bontypridd fod Dŵr Cymru yn gyfrifol am "gamgymeriadau dynol" gyda'r llifddorau

# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd

yn yr argae yn cael eu hagor yn rhy hwyr; gyda llanw uchel yng Nghaerdydd, doedd gan y dŵr unman i fynd. Dylai Dŵr Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau i ymdrin â'r pryderon hyn a chyfathrebu'n glir gyda'r bobl yr effeithiwyd arnynt. Ychydig o'r ymatebwyr oedd wedi clywed yn uniongyrchol ganddynt. Cwynodd rhai pobl na ddaeth Dŵr Cymru i gyfarfod cymuned lle'r oeddent i fod yn bresennol. Dywedodd eraill "nad oeddent yn gwybod" beth oedd Dŵr Cymru yn wneud neu'n methu â'i wneud.

Fe wnaeth Dŵr Cymru ymwneud yn effeithiol â'r gymuned mewn rhai mannau, fel y gwelwyd yn Nhrehafod. Yr oedd pobl leol a ddioddefodd lifogydd yn siŵr fod gorsaf bwmpio Dŵr Cymru wedi methu ar waelod y pentref wedi achosi'r gorlifo. Dros 6 wythnos, ymwelodd Dŵr Cymru â phob eiddo i roi cyngor, helpu gyda lefel sylfaenol o iawndal i'r tai hynny oedd heb yswiriant, a buont mewn cyfarfodydd cyhoeddus lleol. Erys pryderon na wnaed gwelliannau i seilwaith y pympiau lleol mae pobl yn teimlo fod hyn yn gadael y gymuned yn agored i lifogydd eraill yn y dyfodol.

Dywedodd un ymatebydd y cysylltodd â chynrychiolwyr Dŵr Cymru a ddywedodd pe na bai'r llifddorau wedi eu hagor pan wnaethant, "y byddai Pontypridd gyfan wedi diflannu". Honnodd ymatebydd arall mai'r rheswm yr agorwyd y llifddorau oedd i warchod Aberhonddu rhag y llifogydd. Fodd bynnag, mae'r atebion i'r cwestiwn hwn ar goll mewn niwl o ddyfalu, sibrydion, dryswch a rhwystredigaeth, yn bennaf am na chafwyd unrhyw esboniad na chyfathrebu gan yr awdurdodau swyddogol a fyddai wedi tawelu meddyliau.

### Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Pan ofynnwyd am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y llifogydd a'r hyn y gallant wneud i wella eu hymateb, dywedodd ymatebwyr fod y rhybuddion llifogydd wedi dod yn rhy hwyr, gan dynnu sylw at y diffyg cyfathrebu llwyr, nid yn unig rhwng trigolion a'r awdurdodau ond rhwng yr awdurdodau eu hunain. Mae ymatebwyr wedi gofyn am well amddiffynfeydd rhag llifogydd, gwell systemau i rybuddio am lifogydd, ac ymchwiliad llawn i'r hyn a ddigwyddodd. Yr argraff gyffredinol a geir o'r ymatebion hyn yw un o ddryswch am gyfrifoldebau'r awdurdodau dan sylw. Mae rhyw ymdeimlad bod y tri awdurdod ar fai fel rhai a gyfrannodd yn ystod y llifogydd ac ar eu hôl, a bod pawb wedi gwneud camgymeriadau. Mae un corff wedi beio'r llall, ac y mae hyn wedi bod yn rhwystredig i ymatebwyr sydd dim ond eisiau cefnogaeth briodol ac atebion gonest.

Yr oedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg wedi eu hyswirio a chawsant daliadau gan eu cwmnïau yswiriant am y difrod. Ni chafodd ychydig o'r ymatebwyr oedd wedi eu hyswirio ac a hawliodd unrhyw daliad oherwydd mai "gweithred Duw" oedd y llifogydd, neu am nad oeddent yn sylweddoli nad oedd difrod gan lifogydd wedi ei gynnwys yn eu hyswiriant. Dywedodd rhai eraill oedd ag yswiriant, ond na wnaethant hawlio, nad oeddent eisiau i'w premiymau godi,

# Llifogydd yn Etholaeth Pontypridd

a dywedodd ambell un arall mai dim ond yswiriant cynnwys oedd ganddynt ac nad oedd ganddynt yswiriant am y difrod. Yr oedd ymatebwyr oedd heb yswiriant naill ai heb roi rheswm neu wedi dweud mai'r rheswm oedd eu bod yn byw yn rhy agos at yr afon i gael yswiriant. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr a dderbyniodd daliad eu bod wedi gweld cynnydd mawr yn eu premiymau neu eu bod yn disgwyl i'w premiymau godi pan fydd yn amser eu hadnewyddu. Dywed y sawl oedd heb yswiriant neu nad oedd wedi eu hyswirio rhag llifogydd na allant yn awr gael yswiriant ar gyfer llifogydd yn y dyfodol.

Cyfarfu Leanne Wood AS a chynghorwyr Plaid Cymru a chynrychiolwyr y sefydliad Flood RE ym mis Gorffennaf i ddarganfod pa help a chyngor y gallent gynnig i bobl yn y cymunedau lle bu'r llifogydd. Mae Flood RE yn darparu yswiriant arbenigol a fforddiadwy yn erbyn llifogydd sydd wedi ei gefnogi gan y llywodraeth, gan ddal 14,000 polisi yng Nghymru, gyda'r swm dros ben wedi ei osod ar £250. Y prif faen prawf ar gyfer yswiriant Flood RE yw bod yn rhaid i'r eiddo fod yn un domestig ac wedi ei godi cyn 2009. Mae Flood RE yn casglu lefi blynyddol gan yswirwyr cartrefi bob blwyddyn. Mae'r yswiriwr wedyn yn pasio'r rhan o'r polisi sy'n risg llifogydd ymlaen at Flood RE. Bydd pobl sy'n gwneud hawliad dilys ar eu hyswiriant yn cael eu had-dalu gan Flood RE. Mae'r sefydliad eisiau gweithio i gynyddu cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau, felly byddant yn cefnogi digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth mewn cymuned. Maent yn cynghori trigolion i fod yn wyliadwrus rhag cwmnïau "cowboi" sydd yn aml yn symud i mewn i gymunedau a ddioddefodd lifogydd, gan eu cynghori i beidio â chytuno na llofnodi unrhyw beth cyn gwirio ddwywaith a theirgwaith. Mae Flood RE yn bodoli er mwyn sicrhau y gall pawb gael yswiriant fforddiadwy, os ydynt wedi dioddef llifogydd neu beidio, ac yn esbonio na ddylid gwrthod yswiriant llifogydd i neb.

Mae 100% of ymatebwyr i'r arolwg ym Mhontypridd o blaid ymchwiliad annibynnol i achosion y llifogydd yn Rhondda Cynon Taf ac eisiau gweld mesurau lliniaru i warchod pobl rhag glawogydd trwm yn y dyfodol, y byddwn yn anorfod yn weld o ganlyniad i newid hinsawdd.




DE CYMRU
SOUTH WALES
FG13 EJC
WG12 FKT

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda



# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda


Yng Nghymoedd y Rhondda, cafwyd mwy nag un digwyddiad o lifogydd difrifol: ar 16 Chwefror 2020, yr un amser â'r llifogydd ym Mhontypridd, a 4 mis yn ddiweddarach ar 17 Mehefin. Soniodd 60% o ymatebwyr iddynt ddioddef llifogydd ym mis Chwefror yn unig, soniodd 18% am gael llifogydd ym Mehefin, a dywedodd 18% eu bod wedi dioddef llifogydd ym misoedd Chwefror a Mehefin.

Mae'r rhesymau pam y llifodd dŵr i dai pobl yn y Rhondda yn amrywio'n fawr. Yn Pentre a Blaenllechau, yr oedd cartrefi islaw llethrau'r mynydd wedi gweld contractwyr yn torri coed yn ddiweddar oherwydd penderfyniad polisi i dorri'r coed llarwydd i gyd. Yr oedd y coed a gwympwyd wedi arfer dal y dŵr a sianelu cyrsiau dŵr. Tybiwyd bod peth rwbel a adawyd ar ôl wedi achosi dŵr i lifo i rai cartrefi, er nad yw CNC yn derbyn hyn.

Mewn cymunedau eraill -Porth ac Ynyshir er enghraifft - torrodd yr afon drwy amddiffynfeydd neu lifo i dai oherwydd bod pontydd wedi eu cau. Nid yw mor hawdd deall beth a achosodd y llifogydd ym Maerdy yn ystod llifogydd sydyn mis Mehefin 2020, gan nad yw'r coed yng nghefn North Terrace eto wedi eu cwympo.

Dioddefodd cartrefi yn Ystrad, Ynyshir, Llwynypia, Treherbert a Threorci lifogydd wrth i ddŵr lifo ymaith o'r mynydd. Roedd dŵr wedi llifo i rai o'r cartrefi hyn o'r blaen – ond nid oedd eraill wedi dioddef erioed o'r blaen. Ers hynny, cafwyd llawer o adroddiadau am ddraeniau a chylfatiau wedi cau a dyfrffyrdd yn cael eu newid ar y mynydd am wahanol resymau. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r holl bryderon hyn.

Mae adroddiadau hefyd am lifogydd eraill wedi digwydd ar adegau eraill. Gweler y graff isod.



# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

**Llifogydd mis Chwefror:** Tarodd Storm Dennis dde Cymru ar Chwefror 15 ac 16, lle, fel y crybwyllwyd eisoes, rhoddwyd rhybudd tywydd a llifogydd "difrifol" ac y "cwympodd swm enfawr o law". Fel gydag arolwg Pontypridd, cafodd ymatebwyr arolwg y Rhondda gyfle i ddisgrifio beth ddigwyddodd yn eu geiriau eu hunain. Mae'r ymatebion yn cynnwys peth dyfalu ac y mae llawer o ymatebwyr yn dangos rhwystredigaeth amlwg, yn bennaf eto oherwydd diffyg cyfathrebu gan yr awdurdodau swyddogol. Dechreuodd y dyfroedd godi yn oriau mân Chwefror 16. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr ddeffro yng nghanol nos i weld dŵr yn codi ar "raddfa echrydus" yn eu tai. Dywedodd llawer na chiliodd y dyfroedd hyd nes i'r hyn a ddywedodd tystion oedd pwmp yn cael ei "droi ymlaen" yn y bore, ac yna roedd fel "tynnu'r plwg mewn sinc llawn dŵr". Hefyd, llithrodd swm enfawr o laid yn Tylorstown (llun isod), gan greu rhwystr yn yr afon islaw, a chwalu rhannau o lwybr beicio'r Rhondda Fach.


Rhestrodd yr ymatebwyr dri rheswm pam, yn eu barn hwy, fod yr ardal wedi dioddef: yn gyntaf, cwympo coed yn ddiweddar ar y mynydd, heb glirio fawr ddim; yn ail, rwbel o'r cwympo yn cau'r draeniau a'r cylfatiau yn ystod y glaw trwm; ac yn drydydd, yr orsaf bwmpio heb gael ei throi ymlaen/yn methu/heb fod yn gweithio.




**Llifogydd mis Mehefin:** Ar Fehefin 17, cafwyd glaw trwm eto a arweiniodd at lawer o'r un lleoedd gafodd lifogydd ym mis Chwefror yn dioddef eto Y tro hwn, yn ystod y dydd y daeth y llifogydd a chafodd nifer go dda o'r ymatebwyr gyfle i sianelu'r dŵr trwy eu tai neu atal y dŵr gyda bagiau tywod. Yn dibynnu ar y lleoliad, cafodd rhai tai lifogydd cynddrwg â rhai Chwefror, os nad gwaeth. Yr oedd llawer o'r rhai a gafodd lifogydd ym Mehefin heb allu symud yn ôl adref ar ôl difrod mis o Chwefror. Cred ymatebwyr mai'r rheswm y tu ôl i'r llifogydd ym mis Mehefin oedd nad oedd y draeniau a'r cylfatiau wedi eu clirio ers llifogydd mis Chwefror. Dywedodd pobl hefyd na ddechreuodd y pwmp weithio nes iddo gyrraedd rhai troedfeddi o ddŵr. Yn ôl y graff nesaf, bu'n rhaid i 44.4% o ymatebwyr yn y

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

y Rhondda symud allan o'u tai oherwydd y difrod. Roedd llawer heb allu dychwelyd adref adeg yr arolwg ym mis Gorffennaf.





O ran cymorth gyda bagiau tywod, mae'r darlun yn y Rhondda yn debyg i'r un ym Mhontypridd.  Cafodd 72.8% o ymatebwyr yn y Rhondda anhawster cael gafael ar fagiau tywod (graff isod), yn ogystal â derbyn fawr ddim cyfathrebu gan yr awdurdodau lleol.




Cred 71.6%, mwyafrif mawr o ymatebwyr y Rhondda yn gryf y gallasai llifddorau fod wedi atal dŵr rhag dod i mewn i'w tai (graff isod).

Dywed ymatebwyr y Rhondda fod llawer wedi clywed gan swyddog o'r awdurdod lleol yn y dyddiau a'r wythnosau wedi'r llifogydd. Fodd bynnag, dywed cryn dipyn o'r ymatebwyr mai cynghorwyr lleol a chymdogion yn bennaf roddodd help llaw gyda'r ymdrech i lanhau, ac nid yr awdurdodau perthnasol.

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda




**Pentre**

Ym misoedd Chwefror a Mehefin 2020, effeithiwyd ar dai yn Pentre gan y llifogydd. Dioddefodd rhai tai bedair gwaith. Creodd y llif mwyaf ym mis Chwefror, a achoswyd gan Storm Dennis, ddifrod enbyd i drigolion Stryd Lewis, Pleasant Street, a rhannau o Strydoedd Treharne a Roberts, i enwi dim ond rhai. Achosodd y llifogydd ddinistr llwyr i gymuned Pentre. Ar fore Sul y llifogydd, yr oedd y mwd i fyny at fferau pobl ar y ffyrdd a'r palmentydd yn y strydoedd hyn. Yr oedd pobl yn gwagio eu dodrefn o'r lloriau isaf ar y palmentydd, oherwydd y difrod a achoswyd gan y dŵr brwnt a mwdlyd a lifodd i'w cartrefi. Rhaid oedd taflu offer cegin a dodrefn ystafelloedd byw ymaith am eu bod wedi eu halogi. Gadawyd pobl heb drydan na gwres.

Mae'r trigolion yr effeithiwyd arnynt yn gryf o'r farn fod y llif naill ai wedi ei achosi neu o leiaf ei waethygu'n sylweddol gan y sbwriel a'r rwbel a adawyd ar ôl gan waith cwympo coed CNC ar y mynyddoedd uwchlaw'r dref dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod y glaw yn drwm, doedd ganddo ddim lle i fynd ar ôl llusgo symiau anhygoel o goed, canghennau a brigau i lawr y mynydd a thros gylfat pwysig. Wedi hynny, cafodd y cylfat ei gau gan dunelli o ddeunydd, doedd gan y dŵr ddim lle i fynd. Daeth dros y top ac i lawr i'r dref, gan anrheithio bywydau cannoedd o bobl. Yr oedd tystiolaeth y sbwriel hwn o'r mynydd yno i bawb ei weld. Yr oedd canghennau mawr yn sownd dan geir a ddifrodwyd. Gwelwyd blawd llif a brigau wedi'u claddu mewn mwd yn gorchuddio llawer o'r strydoedd yr effeithiwyd arnynt a'r eiddo y bu'n rhaid i bobl eu symud o'u cartrefi.

Trawodd y llifogydd sydyn ym mis Mehefin lawer eiddo ar hyd a lled Pentre. Yr oedd y rhain yn wahanol i lifogydd Chwefror am na chawsant eu cyfyngu i rai strydoedd. Y tro hwn, gorlifodd y dŵr i dai mewn llawer o strydoedd am na allai'r gylïau amsugno'r holl law a ddisgynnodd. Symudwyd sbwriel yn ddwfn o'r tu mewn i'r pibelli gan y cyngor a phan ddefnyddiwyd camerâu i fapio'r pibelli, gwelwyd bod llawer ohonynt wedi eu difrodi neu eu torri. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a ddifrodwyd y pibelli hyn o ganlyniad i'r rwbel a'r sbwriel ddaeth i lawr o'r mynydd a chau'r cylfatiau yn ystod Storm Dennis. Ein gobaith yw bydd yr adroddiad Adran 19 yn gwneud yn

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

gwneud yn glir ai hyn ddigwyddodd. Ym mis Awst, gorlifodd dŵr i ddau dŷ oedd wedi dioddef yn sgil y llifogydd o'r blaen. Credir mai un o bibelli Dŵr Cymru oedd yn gyfrifol.



**Ynyshir**

Cafwyd dau ddigwyddiad ar wahân o orlifo yn Ynyshir yn oriau mân Chwefror 16. Yn yr achos cyntaf, gorlifodd y Rhondda Fach ei glannau rhwng Avon Terrace a Riverside Close. Y rheswm am hyn oedd sbwriel, coed a llystyfiant arall yn bennaf, yn cronni dan bont y ffordd rhwng Station Road ac Avon Terrace. Arweiniodd hyn at lifogydd difrifol ym mhob eiddo yn Riverside Close ac un tŷ yn Station Road. Gorlifwyd sawl eiddo hefyd yn Avon Terrace a Standard View. Nid oedd yr afon wedi gorlifo yma ers cyn cof.

Ym mhen deheuol Heath Terrace y cafwyd yr ail ddigwyddiad. Y rheswm am hyn oedd bod cylfat wedi ei gau ar y mynydd y tu ôl i'r tai. Gweithiodd trigolion lleol a gwirfoddolwyr trwy'r nos a'r dyddiau canlynol i symud y deunydd o dan y bont a chlirio'r cylfat oedd wedi cau. Achubwyd pâr oedrannus o'u tŷ yn Riverside Close gan y gwasanaeth tan. Cyflenwodd cwmni nwyddau adeiladu yn Wattstown dywod a bagiau, gyda gwirfoddolwyr yn eu llenwi a mynd â hwy i'r tai oedd mewn perygl. Yr oedd lawer o'r rhai yr effeithiwyd arnynt heb yswiriant oherwydd eu bod yn byw mor agos at yr afon.

**Blaenllechau**

Digwyddodd y llifogydd ym Mlaenllechau ar Chwefror 16, ac yn ôl cofnodion swyddogol y cyngor, effeithiwyd ar 15 tŷ. Cred y trigolion, fel mewn ardaloedd eraill, fod cwympo coed gan CNC yn ffactor a gyfrannodd at y llifogydd a ddifrododd eu cartrefi. Yr oedd sbwriel a deunydd gwastraff a adawyd ar ôl wedi cau'r cylfatiau a'r cyrsiau dargyfeirio dŵr ar hyd copa'r mynydd. Fel arfer, buasai'r dŵr wedi cael ei gyfeirio ymaith o'r tai at y rhaeadr yn y Glyn ac wedi llifo ymaith i'r afon islaw Blaenllechau. Oherwydd bod y cyrsiau dargyfeirio wedi cau, dywedodd y trigolion fod y rhaeadr wedi bod yn sych iawn yn yr wythnosau cyn y llifogydd. Maent yn credu bod y dŵr wedi dechrau llifo'n naturiol i lawr llethrau'r mynydd, gan gronni

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

mewn mannau, ac mai dyma a arweiniodd at gymaint o ddŵr yn llifo i'w cartrefi ym mis Chwefror.

**Britannia, Porth**
Digwyddodd y llifogydd yn Britannia ar Chwefror 16 yn oriau m ân y bore. Cred y trigolion yno fod nifer o ffactorau wedi dod ynghyd i arwain at y llifogydd mawr a'r difrod i'w cartrefi. Yn ôl cofnodion y cyngor, effeithiwyd ar 30 o gartrefi. Yn gyntaf, dywed y trigolion fod diffyg gwaith cynnal a chadw ar y system ddraenio yn yr ardal wedi cyfrannu at yr hyn ddigwyddodd. Gwnaed cwynion i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf cyn y llifogydd am y llaid a'r sbwriel oedd wedi cronni - roedd rhai draeniau wedi cau yn llwyr. Yr oedd angen atgyweirio wal yr afon hefyd, gan i gymaint o law achosi i'r wal dorri, a pheri cymaint o ddifrod nes i gar gael ei olchi i'r afon. Heb unman arall i fynd, oherwydd bod y draeniau wedi cau, rhuthrodd y dŵr tuag at y tai. Mae trigolion hefyd wedi codi cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol oedd gorsafoedd pwmpio Dŵr Cymru. Mae llawer yn credu y bu oedi cyn i'r gorsafoedd hyn ddechrau gweithio a phan wnaethant gychwyn o'r diwedd, gostyngodd y dŵr yn enfawr ac yn hynod o gyflym. Maent hwy o'r farn, petai'r gorsafoedd hyn wedi bod yn gweithio pan ddechreuodd y llifogydd, na fuasai'r difrod wedi bod cynddrwg.

**Treorci**
Creodd Storm Dennis anhrefn llwyr i lawer o gymunedau yn Rhondda Cynon Taf ac yr oedd nifer o resymau dros bob digwyddiad. Dioddefodd ward Treorci lifogydd mewn pedwar man ar Chwefror 16, a methodd prif wal yr afon yn Sŵn yr Afon hefyd.

Stryd Dumfries a chanol y dref. Dyma'r digwyddiad gwaethaf o orlifo yn yr ardal. Mae draen y cylfat ar ben y lôn yn Stryd Column wedi cau nifer o weithiau dros y blynyddoedd, gan achosi problemau mawr i'r trigolion, yn enwedig yn Stryd Dumfries. Yr hyn a ddigwyddodd ar Chwefror16 oedd y gwaethaf a welodd Stryd Dumfries, ac fe effeithiodd hefyd ar dai yn y strydoedd cyfagos gan gynnwys Stryd Luton, Stryd Stuart a chanol y dref. Aeth y dŵr a'r sbwriel i lawr mor bell â Stag Square, gna lifo o Stryd Luton ac i lawr y brifforddd. Nid oedd strwythur draen y cylfat a fethodd yn ddigonol o gwbl. Mae system ddraenio a dal sbwriel mwy o lawer ychydig lathenni i lawr yr afon, sy'n wych am atal llifogydd, ond mae'n hollol ddiwerth pan na fydd y cylfat i fyny'r afon yn gweithio. Cafwyd adroddiadau hefyd fod y rhwystr a gafwyd wedi ei wneud yn waeth pan dorrodd argae i fyny'r afon, gan anfon mwy o sbwriel i lawr i'r system, gan gynnwys teiars.

Caeodd y cylfat yn Heol Tyle-du yn gyfan gwbl ar noson Chwefror 17, gan achosi i'r dŵr lifo dros balmant a ffordd Heol Tyle-du, ac achosodd hyn yn ei dro lifogydd yn Glyncoli Close, cyn i'r dŵr ddychwelyd i'r system ddraenio a llifo ymaith yn ddiogel. Roedd hi'n fore cyn i'r cylfat gael ei glirio o'r diwedd gan y trigolion. Mae'n

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

anodd cyrraedd y cylfat hwn oherwydd gordyfiant; rhaid mynd ar hyd llwybr cul a thrwy glwyd adfeiliedig i fynd ato.

Oherwydd hyn, does dim modd mynd a pheiriannau i wneud gwaith cynnal a chlirio ar strwythur y cylfat. Rhaid gwneud y gwaith a llaw, ac o ganlyniad, mae llawer o sbwriel wedi cronni dros nifer o flynyddoedd. Y cyfan wnaeth Storm Dennis oedd symud digon o sbwriel nes llethu'r strwythur oedd yno i'w ddal, a hwnnw bron yn llawn eisoes.

Mae ffrwd y mynydd sy'n llifo y tu ôl i hen safle Glofa Ynysfeio yn mynd i mewn i'r system ddraenio leol yn Painter's Row, ac oddi yno aiff yn syth i'r brif afon ar lawr y cwm. Cafwyd llif yn 86 Stryd Baglan pan dorrodd caead twll gwaith, gan achosi i ddŵr lifo trwy'r eiddo a gweithdy busnes, gan orlifo wedyn i'r lôn y tu ôl i Rheidol Close. Ar noson y llifogydd, roedd craig fawr wedi mynd i mewn i'r system ac wedi rhwystro'r bibell dan 86 Stryd Baglan, gan achosi i'r llifeiriant ffrwydro trwy gaead y twll. Nid oes dim chwaith i warchod y fynedfa i'r bibell yn safle Ynysfeio, felly nid oedd dim i rwystro sbwriel rhag mynd i'r system ddraenio. Mae'r bibell fynedfa i'r system yn mesur 600mm mewn diamedr, ond yn culhau wedyn i 450mm. Aeth carreg oedd yn fwy na 450mm i mewn i'r system gan rwystro'r bibell lai.

Yn Sŵn yr Afon, achosodd Storm Dennis oblygiadau difrifol i sefydlogrwydd y tir a wal yr afon at y dyfodol, er i CNC ddweud nad yw hyn yn peri perygl o lifogydd ar hyn o bryd. Yn ystod y storm, ymddangosodd llync-dwll mawr wrth wal yr afon yn Sŵn yr Afon. Yn y 1960au neu'r 1970au y codwyd y wal, sy'n rhedeg ger yr afon ar ei hyd o ben uchaf Pentre hyd at Ynyswen.

Methodd wal yr afon oherwydd y gall ei sylfeini fod wedi bod yn erydu ers peth amser, ond cyrhaeddodd y llif trwm yn ystod Storm Dennis o'r diwedd y tir ar ochr arall y wal, ac achosi cwymp. Mae'r erydu hwn yn digwydd pan fo llif y dŵr yn taro'r wal ar y tro 'allanol' yn yr afon. Rai blynyddoedd yn ôl, adnewyddwyd ffens yr afon ar ochr arall yr afon, a gadawyd tunelli o gerrig ar yr ochr honno o lan yr afon, gan orfodi llif y dŵr fwy fyth i'r ochr lle mae'r wal ddiffygiol. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyngor nad eu cyfrifoldeb hwy yw'r strwythur: gorwedd hwn gyda pherchennog y tir dan ei hawl torlannol. Y tirfeddiannwr yn yr achos hwn yw datblygwr Sŵn yr Afon, y daeth ei fusnes i ben nifer o flynyddoedd yn ôl.

Mae'r cylfat sy'n rhedeg y tu ôl i Tynybedw Terrace ac uwchlaw Troedyrhiw Terrace yn draenio dŵr o'r mynydd ac yn ei gludo via strwythur arall arall dal sbwriel ym maes parcio Clwb Rygbi Treorci ac ymlaen wedyn i'r brif afon. Rhwystrwyd gorchudd draen y cylfat ar ben Troedyrhiw Terrace, gan achosi'r dŵr lifo i'r briffordd ac i lawr Myrtle Hill, gan orlifo rhai tai. Mae draen y cylfat yn sylweddol ei faint ac yn weddol newydd, ond yn y bôn, ni allai ymdopi â swm

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

y sbwriel a aeth i mewn i'r cylfat.

Cafwyd llifogydd eraill yn yr ardal hon. Mae eiddo ar y Stryd Fawr wedi dioddef llifogydd deirgwaith mewn saith mlynedd, er iddynt osgoi'r chwalfa a achoswyd gan Storm Dennis. Gorlifwyd cartrefi eraill yn y Stryd Fawr a Stryd Tynybedw hefyd. Ym mis Rhagfyr 2013, methodd yr orsaf bwmpio yn Stryd Regent, gan achosi llifogydd mewn rhyw ddeg eiddo ar hugain. Nid oedd peirianwyr oedd wedi gwneud gwaith cynnal blaenorol yn yr orsaf bwmpio wedi adfer y pŵer i'r pympiau ar ôl iddynt orffen y gwaith. Golygodd hyn na wnaeth y pympiau gychwyn pan ddaeth y dŵr. Derbyniodd Dŵr Cymru gyfrifoldeb am y methiant ar y pryd.

Ar Fehefin 16 2020 cafwyd glaw eithriadol o drwm a lethodd y sstem ddraenio , gan achosi gorlifo yn llawer o'r un adeiladau a ddioddefodd lifogydd yn 2013. Achosodd y glaw lifogydd hefyd yn Stryd Tynybedw ac yn uwch i fyny'r ffordd yn y Stryd Fawr. Disgynnodd llifeiriant o law mewn llai na hanner awr tua 7pm. Nid yw'r cyngor na Dŵr Cymru wedi esbonio beth ddigwyddodd, ond dywed adroddiadau gan beirianwyr Dŵr Cymru fod eu hasedau wedi gweithio o fewn y canllawiau. Mae hyn yn awgrymu na allai system ddraenio'r briffordd drosglwyddo'r dŵr wyneb yn ddigon cyflym o'r briffordd i system Dŵr Cymru. Mewn rhai achosion, tagwyd rhwydweithiau cyfun y draeniau a'r carthffosydd, a dioddefodd llawer o drigolion o gael dŵr brwnt yn llifo o gefn yr eiddo trwodd i'r tu blaen.

Ym mis Hydref 2020, dioddefodd trigolion y Stryd Fawr lifogydd, er nad oedd y rhain mor ddifrifol. Yn oriau mân Hydref 8, dechreuodd y dŵr godi eto ar y Stryd Fawr, gan lifo i mewn i rai cartrefi. Y noson honno, achosodd diffyg ar y rhwydwaith trydan lleol i orsaf bwmpio Stryd Regent golli pŵer, ac ar yr un pryd, roedd problem gyda'r generadur wrth gefn wedi golygu nad oedd hwnnw'n gweithio. Unwaith eto, gwadodd Dŵr Cymru mai hyn a achosodd y llifogydd.

**Ystrad**

Rydym yn ymwybodol o dri digwyddiad o orlifo a effeithiodd ar drigolion yn Heol Tyntyla, Heol Penrhys a Danycoed a Danygraig
.

Digwyddodd y llifogydd yn Heol Tyntyla ar yr adeg y trawodd Storm Dennis. Roedd y cylfat y tu ôl i Heol Tyntyla wedi cau, a olygodd fod dŵr yn dod i mewn trwy gefn y tai ac allan i'r ffordd fawr.

Yn sgil Storm Dennis, daethom yn ymwybodol o'r llifogydd yn Heol Penrhys. Effeithiodd hyn ar lai na 10 tŷ. Yr oedd y dŵr wedi dod i lawr o gefn y mynydd. Roedd y cylfat yno wedi tagu gyda drain a malurion. O siarad â'r trigolion, roeddent hwy yn sicr bod y gordyfiant yn y lôn y tu ôl iddynt wedi chwarae rhan hefyd i atal y dŵr rhag cyrraedd y draeniau yno, ac achosodd hyn i ddŵr lifo trwy'r cefnau.

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

Digwyddodd y llifogydd yn Danycoed a Danygraig rai wythnosau'n ddiweddarach. Trwy drugaredd, ni wnaeth y dŵr gyrraedd y tai, oherwydd i'r gwasanaeth tân gael ei alw allan ac iddynt allu pwmpio'r dŵr allan mewn pryd. Unwaith eto, gan fod y tai hyn â'u cefnau at y mynydd, y prif bryder yw cyflymder y dŵr yn llifo o'r mynydd. Mae diffyg gwaith cynnal ar y system ddraenio hefyd yn achosi pryder.

**Maerdy**

Digwyddodd y llifogydd ar North Terrace ac Wrgant Place ym Maerdy oherwydd i'r draeniau ar hyd y llwybr troed tenau o flaen y tai gael eu tagu, oedd yn golygu nad oedd gan y dŵr glaw unman i fynd. Ar wahân i'r dŵr glaw arferol, ffrydiodd y dŵr yn un llif i lawr Park Road a Stryd Wood o'r strydoedd uwchlaw ac oddi ar lethrau'r mynydd, ac i lwybrau troed North Terrace ac Wrgant Place heb unman i fynd ond i'r tai. Effeithiwyd ar gartrefi eraill gan lifogydd ar y Stryd Fawr, Stryd Richard, Glyncoed a Station Terrace.

## Rôl Cyngor Rhondda Cynon Taf

Pan holwyd am rôl y cyngor yn y llifogydd a ffyrdd i wella, disgrifiodd ymatebwyr y cyngor fel "diwerth", "esgeulus" ac "araf". Dywedodd llawer eu bod yn teimlo y dylasai'r cyngor fod wedi asesu'r cylfatiau a'r draeniau ar ôl i'r coed gael eu cwympo, i wneud yn siwr nad oedd rhwystrau ynddynt.

Dywedodd un preswylydd iddo sylwi ar y draenio araf cyn llifogydd mis Chwefror; gan ddweud ei fod wedi galw'r cyngor ynghylch rhwystr posib, a chael ei gyfeirio at Gyfoeth Naturiol Cymru. Cyfeiriodd CNC ef at Dŵr Cymru, a hwythau yn eu tro yn ei gyfeirio'n ôl at y cyngor. Ni wnaed dim.

Yr oedd ymatebion i'r arolwg yn cynnwys awgrymiadau am welliant oedd yn cynnwys monitro a gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y draeniau a'r cylfatiau, a'u cyfoesi, a chyfoesi/cynnal ac ychwanegu pympiau dŵr. Gwnaed awgrymiadau hefyd am ddarparu llifddorau – neu, yn well byth, drysau cadarn gyda gwarant o allu gwrthsefyll llifogydd – i'r rhai mewn mwyaf o berygl, gosod draeniau stormydd, a darparu gwell systemau rhybuddio.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd well cyfathrebu gydag awdurdodau perthnasol eraill. Yr oedden tyn awgrymu asesu'r cwympo coed ar y mynydd, ynghyd ag awdurdodau eraill, er mwyn sicrhau y caiff ei wneud gydag asesiadau risg ac i'r safonau uchaf, a bod y sbwriel a'r hyn sydd weddill yn cael ei glirio'n briodol fel na fydd modd iddo gael ei olchi i'r draeniau a'r cylfatiau. Dywed ymatebwyr y dylai'r cyngor gadw golwg yn briodol ar awdurdodau eraill trwy ymgynghori a chynnal asesiadau risg ar waith a allai gael effaith ar drigolion.

Gofynnodd pobl hefyd i'r cyngor fod yn atebol, yn onest a darparu cefnogaeth briodol i'r sawl sydd wedi dioddef.

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

## Rôl Dŵr Cymru

Pan holwyd hwy am rôl Dŵr Cymru yn y llifogydd a ffyrdd o wella at y dyfodol, soniodd mwyafrif mawr o ymatebwyr am fethiant y pympiau yn y gorsafoedd pwmpio a redir gan Dŵr Cymru. Yr oedd lawer o ymatebwyr yn teimlo'n rhwystredig pan welsant Dŵr Cymru yn cyrraedd ac yn troi'r pympiau ymlaen ar ôl i'w cartrefi gael eu difetha gan y llifogydd. Dywedodd yr ymatebwyr fod y dŵr wedyn wedi draenio ymaith ymhen munudau yn unig. Dywedodd un ymatebydd i ddiffoddwr tân oedd yn ei helpu ddweud mai'r rheswm fod y gorlifo wedi digwydd oedd nad oedd y pympiau ymlaen. Dywedodd ymatebydd arall fod cynrychiolydd Dŵr Cymru a ymwelodd â'r stryd yn llawn cydymdeimlad, ond yn gwadu mai Dŵr Cymru oedd ar fai. Ymysg cwestiynau a gododd yn yr arolwg ynghylch y mater penodol hwn oedd: Beth ddigwyddodd i'r pympiau? Oedden nhw ymlaen? Wnaethon nhw fethu? Oedden nhw wedi cael gwaith cynnal yn ddiweddar? Ymysg awgrymiadau am welliannau ar ran Dŵr Cymru mae gwell gwaith cynnal a chadw ar y pympiau.

## Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Pan holwyd hwy am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y llifogydd a ffyrdd y gallent wella, yr oedd llawer o ymatebwyr yn ddig tuag at CNC. Mae llawer o ymatebwyr yn gosod y bai bron yn gyfan gwbl ar CNC am y llifogydd. Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr at "esgeulustod llwyr" CNC, gan gyfeirio'n benodol at dorri'r coed ar y mynydd a'r "llanast ofnadwy" a adawyd.

Trwy gydol yr arolwg, roedd ymatebwyr yn disgrifio'r sbwriel oedd ar ôl wedi'r cwympo ar y mynydd ac a gaeodd y cylfat a'r draeniau gan arwain at y gorlifo. Nid oes neb yn gwadu mai CNC a adawodd y sbwriel hwn. Ymysg sylwadau eraill ynghylch gwelliannau y gall CNC wneud at y dyfodol mae asesiadau rheolaidd a chynnal y cylfatiau, gofalu bod pontydd dros yr afonydd yn cael eu cadw'n glir o lanast a thyfiant, ac ymatebwyr sydd eisiau i CNC "lanhau eu llanast eu hunain".

Fel gydag ymatebwyr Pontypridd, yr oedd mwyafrif mawr o ymatebwyr yr arolwg wedi eu hyswirio ac wedi derbyn taliadau. Yr oedd rhai ymatebwyr wedi eu hyswirio ac wedi ceisio hawlio, ond heb sylweddoli nad oedd difrod gan lifogydd yn rhan o'u hyswiriant. Yr oedd eraill gydag yswiriant heb hawlio, ond heb roi rheswm pam, tra bod eraill yn dweud mai yswiriant cynnwys yn unig oedd ganddynt ac nad oeddent wedi eu hyswirio am ddifrod i adeiladau.

Yr oedd rhai ymatebwyr nad oedd ganddynt yswiriant, ond ni ddywedodd yr un sut y buasent yn talu am y gwaith atgyweirio. Honnodd llawer o ymatebwyr oedd wedi hawlio am ddifrod gan y llifogydd ac a oedd wedi derbyn taliadau fod eu premiymau wedi cynyddu neu eu bod yn disgwyl i'w premiymau godi pan fydd yn amser adnewyddu'r yswiriant.

# Llifogydd yn Etholaeth y Rhondda

Mae 100% o ymatebwyr y Rhondda i'r arolwg yn cefnogi ymchwiliad annibynnol i achos y llifogydd yn y Rhondda a mesurau lliniaru posib i warchod pobl rhag glawogydd trwm yn y dyfodol.





# Llifogydd yn Etholaeth Cwm Cynon



# Llifogydd yn Etholaeth Cwm Cynon

Naw mis ers llifogydd mis Chwefror, mae llawer o gymunedau ar draws Cwm Cynon sy'n dal i ddioddef yr effaith. Yn yr ardaloedd a gafodd eu taro waethaf, mae llawer o drigolion heb eto ddychwelyd i'w cartrefi, gan fod gwaith adeiladu ac atgyweirio yn dal i fynd ymlaen.

Ymysg yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt oedd Clydach Terrace yn Ynysybwl, gydag 19 o dai yn mynd dan ddŵr oedd dros bennau pobl. Soniodd un preswylydd am orfod nofio dan y dŵr i gyrraedd man diogel, ac y mae'n amlwg fod llawer o bobl yn dal i ddioddef trawma o ganlyniad i'w profiadau. Maent yn awchu am atebion ynghylch beth ddigwyddodd, a sicrwydd fod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu cartrefi yn y dyfodol. Mae a wnelo llawer o bryderon â'r ffaith nad oedd y gwaith o symud deunydd o Nant Clydach wedi ei wneud bob 5 mlynedd fel y dylid, ac nad oedd coed a sbwriel yn cael eu clirio o'r afon. Soniodd llawer o drigolion hefyd eu bod yn teimlo wedi eu hesgeuluso ac yn ystyried cymryd camau cyfreithiol eu hunain yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent hefyd yn cefnogi ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd.

Yn ddiamau, roedd y llifogydd a gafwyd yn Aberpennar yr un fath yn union â'r llifogydd ym mis Rhagfyr 1979. Ceir tystiolaeth o hyn mewn ffotograffau a gymerwyd o'r awyr o'r Afon Cynon a llifogydd yn Stryd Henry yng nghanol y dref - yn 1979 gan Asiantaeth yr Amgylchedd fel yr oedd bryd hynny, ac yn 2020 gan ei olynydd Cyfoeth Naturiol Cymru - sydd ar gael ar-lein. Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddi, dywedodd y Cyng. Pauline Jarman, sydd wedi cynrychioli Aberpennar ers 1976 fod y ddau ddigwyddiad yn frawychus o debyg. Mae felly yn gwrthwynebu honiadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf mai digwyddiad unwaith mewn cenhedlaeth yw hwn, gan iddi fod yn dyst iddynt ddwywaith yn ei hamser fel cynghorydd. Mae'n cofio glawogydd 1979 yn cael eu disgrifio fel rhai "digynsail", yn union fel eleni.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn honni bod y gwersi a ddysgwyd, a'r gwaith a wnaed yn dilyn llifogydd 1979 wedi cael effaith gadarnhaol, ac y buasai digwyddiad 2020 wedi bod hyd yn oed yn waeth heb y gwaith hwn. Mae'r gymuned felly yn holi pam na wrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru i dri chais cynllunio ar y safle hwnnw yn ystod y tair blynedd diwethaf, er bod y tir ar orlifdir? Mae nifer o etholwyr y Cyng. Jarman yn Nwyrain Aberpennar a ddioddefodd lifogydd cysylltiedig â Chylfat Nant Ffrwd wedi gofyn am ei chefnogaeth i geisio atebion i'w cwestiynau. Er eu bod yn ddiolchgar am y gwaith glanhau, maent yn dal yn ddig ei fod wedi digwydd o gwbl. Honnodd llawer eu bod yn credu i'r cyngor fod yn esgeulus am beidio â chynnal Cylfat Nant Ffrwd a'r twneli oedd yn mynd dan eu heiddo, ar waetha'r ffaith mai eu cyfrifoldeb hwy yw'r cylfat. Maent eisiau atebion a sicrwydd tymor-hir.

Effeithiwyd hefyd ar Gilfynydd, Aberaman, Abercynon, Hirwaun a Chwmbach, gyda llawer o drigolion yn cysylltu

# Llifogydd yn Etholaeth Cwm Cynon

â Phlaid Cymru i gefnogi galwadau am ymchwiliad annibynnol.

**Hiirwaun**
Bu llifogydd sylweddol ym mis Chwefror yn Hirwaun, gyda 16 o dai yn cael eu gorlifo gerllaw Afon Cynon a 6 tŷ mewn pedwar man arall yn y pentref. Cafwyd tirlithriadau arwyddocaol ar hen arglawdd y rheilffordd oedd yn arwain at Heol Penderyn, llifogydd o Byllau Hirwaun a difrod i bibell garthffosiaeth ar draws Afon Cynon.

Daeth llawer o'r trigolion yr effeithiwyd arnynt i gyfarfod gyda'u cynghorydd lleol ar ôl y llifogydd i drafod eu profiadau yn ystod y digwyddiad ac ar ôl hynny ac i wneud yn siwr eu bod yn derbyn unrhyw gefnogaeth oedd ar gael. Ymysg pryderon a godwyd yn y cyfarfod yr oedd dicter y dylai'r asiantaethau cyfrifol fod yn rhagweithiol yn hytrach nac adweithiol wrth reoli'r risg o lifogydd. Cafwyd cwestiynau hefyd am garthu'r Afon Cynon, cynnal cylfatiau a draeniau, a chyfrifoldebau perchenogion gorlifdir. Yn ogystal, cafwyd cwestiynau am effaith y gwaith adfer y gweithfeydd glo brig oherwydd y llifogydd yn Heol Rhigos, yr A465 'r eiddo gerllaw'r A465. Er i'r Afon Cynon orlifo ei glannau yng Nghae Felin Parc, mynnodd y trigolion fod dŵr hefyd wedi dod o byllau gwaith a draeniau a chylfat gerllaw oedd yn gyfrifoldeb Dŵr Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf. Roeddent yn teimlo y dylai pob asiantaeth gwrdd â'r rhai a ddioddefodd i glywed eu tystiolaeth ac i ateb eu cwestiynau niferus.

Yr oedd y trigolion hefyd yn mynegi pryder am y diffyg cefnogaeth gan yr awdurdod lleol ar y noson ac yr oeddent yn ddiolchgar i'r gwasanaeth tân am eu cymorth. Roeddent yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch cyfathrebu gyda'r llinell gymorth frys y tu allan i oriau, yn enwedig wrth ofyn am fagiau tywod - "dywedwyd wrthym y gallem gael bagiau tywod yn unig petai bywydau dan fygythiad neu fod dŵr yn dod i mewn i'n tai, dywedwyd wrthym ni am alw'n ôl pan fyddai'r dŵr yn dod i mewn". Roeddent yn teimlo bod cyfathrebu yn wael a bod gorddibyniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Pryder mwyaf y trigolion o bell ffordd oedd na fuasent yn cael atebion i'w cwestiynau ac na fyddai gwersi'n cael eu dysgu pe na bai'r bobl gyfrifol yn gwrando arnynt. Yr oeddent yn awyddus i fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a derbyn cefnogaeth i i warchod eu cartrefi rhag llifogydd pellach.

# Effaith a Sgil-effeithiau: Casgliad


CHOCO
HAZELNUT
PILLOWS
Typhoo
mamia
IKEA

# Effaith a Sgil-effeithiau: Casgliad

Rydym yn edrych ar arolygon y Rhondda a Phontypridd ac yn cymryd themâu allweddol y mae angen ymdrin â hwy. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd o Gwm Cynon. Yn yr arolygon, pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth arall y carai'r ymatebwyr ei ychwanegu, trafododd rhai gost y difrod i geir ac eiddo; soniodd eraill am y diffyg cyfathrebu gan yr awdurdodau a'r teimlad fod pobl "wedi anghofio amdanom". Yr oedd llawer o ddicter a rhwystredigaeth tuag at yr awdurdodau lleol dan sylw a'r hyn oedd yn cael ei weld fel "esgeulustod" ar eu rhan.

Mae'r ffaith na fu unrhyw rybuddion, neu os oedd rhybuddion, fod llawer o bobl heb eu derbyn (yn enwedig ym mis Mehefin) yn ogystal â'r hyn deimlent hwy oedd fawr ddim cefnogaeth yn ffynhonnell llawer o'r rhwystredigaeth hwnnw. Y mae lawer o ymatebwyr hefyd yn poeni na fydd modd yswirio eu tai neu y bydd gwerth eu heiddo'n gostwng ac na fyddai modd iddynt eu gwerthu yn y dyfodol.

Y brif thema gyffredinol yw effaith seicolegol ac emosiynol y llifogydd yn yr holl gymunedau a ddioddefodd yr effeithiau ym Mhontypridd, y Rhondda a Chwm Cynon.  Mae pobl yn byw mewn ofn pan ddaw glaw trwm am nad ydynt wedi cael digon o wybodaeth am beth ddigwyddodd, a fydd yn digwydd eto, neu a yw'r broblem wedi'i datrys. Sonia llawer am blant yn ofni'r glaw, ac yn "beichio llefain" pan fydd yn bwrw. Mae llawer o ymatebwyr a'u teuluoedd ar feddyginiaeth oherwydd PTSD ac yr oedd nifer o bobl eraill yn sôn am anhwylderau pryder a straen. Dywed nifer o bobl eu bod yn cael hunllefau'n gyson am y cyfan yn digwydd eto. Y mae effaith y llifogydd ar y cymunedau hyn yn mynd y tu hwnt i'r digwyddiadau eu hunain: cafodd y sioc a'r trawma effeithiau parhaol sy'n andwyol i'r bobl sydd wedi dioddef. Mae'r llifogydd eu hunain yn ddigon i gael effeithiau ar iechyd meddwl, ond yng nghanol pandemig, mae llawer o bobl yn teimlo nad oes fawr yn cael ei wneud i'w helpu ac na allant dawelu eu meddyliau.

Yn olaf, mae llawer o ymatebwyr yn crybwyll cefnogaeth gan y cymunedau eu hunain, yn ogystal â chan Leanne Wood AS a'r cynghorwyr. Mynegwyd diolch hefyd i'r ymatebwyr brys, cymdogion a chanolfannau cymuned lleol, gan i'r rhain oll ddod ynghyd i helpu ei gilydd gystal ag y gallent ym mhob ardal a ddioddefodd.

# Argymhellion:

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd ynghyd fod ymchwiliad annibynnol dan arweiniad arbenigwyr yn hanfodol fel y gallwn wneud y canlynol:

Deall beth aeth o'i le a pham, trwy wahodd tystiolaeth gan yr holl drigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt, ochr yn ochr â'r holl adroddiadau swyddogol i'r llifogydd.

Dysgu gwersi at y dyfodol.

Sicrhau buddsoddi mewn mesurau atal llifogydd ac amddiffynfeydd llifogydd.

Rhoi mwy o gefnogaeth i drigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt, neu sydd mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol.

Sicrhau iawndal i'r rhai yr effeithiwyd arnynt, petai esgeulustod yn cael ei bennu fel ffactor a gyfrannodd at orlifo cartrefi a busnesau.

**Argymhellir hefyd y dylid cymryd y camau isod:**

Peri bod drysau cadarn gwarantedig ar gael i bob eiddo sydd mewn perygl a allai elwa ohonynt, a hynny am ddim.

Ystyried rhoi cyfrifoldeb i un corff am bob agwedd o lifogydd, yn hytrach nag agwedd amlasiantaethol, a allai arwain at agwedd dameidiog. Byddai hyn yn cynnwys atal llifogydd a llinell gymorth a chefnogaeth.

Buddsoddi mewn rhaglen o blannu coed, ochr yn ochr ag asesiad risg lawn o effaith rhaglenni cwympo coed ar gyrsiau dŵr. Dylai hyn hefyd gynnwys clirio'r holl wastraff a sbwriel ymaith.

Rhoi gwybodaeth am barthau risg llifogydd ar gael trwy drefn treth y cyngor.

Gwella cyfathrebu gyda thrigolion a busnesau, gan gynnwys system o rybuddion am lifogydd.

# Atodiad A

# Atodiad A

**Fe welwch isod dystiolaeth a gymerwyd gan drigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt, a pham eu bod yn credu bod ymchwiliad annibynnol yn hanfodol, fel rhan o'r ymgyrch am Ymchwiliad Annibynnol.**

"Rwyf wir yn teimlo bod y profiad hwn wedi 'ngwthio at fin y dibyn. Dyma un o'r pethau gwaethaf a brofais erioed ac y mae'n dal i effeithio arna'i bob dydd mewn rhyw ffordd. Mae hyd yn oed llenwi'r arolwg hwn a meddwl yn ôl am y peth yn gwneud i mi lefain. Fe fûm i ffwrdd o'r gwaith am 6 wythnos oherwydd y straen, alla'i ddim cysgu nac ymlacio pan fydd yn bwrw'n drwm. Wn i ddim os bydda'i byth yr un fath eto, rwyf wedi siarad â llawer o 'nghymdogion a maen nhw i gyd yn cytuno, mae fel bod â PTSD. […] Sut mae disgwyl i ni allu ymlacio yn ein cartrefi byth eto pan fydd y tywydd yn ddrwg? Allwn ni ddim trystio CNC na RCT 'tae'n dod i hynny."

"Rwy'n anabl, a chawson ni ddim help o gwbl, fe fu'n rhaid i ni wneud yr holl waith ein hunain."

"Rwy'n teimlo'n siomedig dros ben gyda'r awdurdodau, maen nhw wedi anghofio amdanon ni a does neb eisiau cyfaddef eu rhan yn yr hyn ddigwyddodd. Mae'r cyngor yn meddwl trwy roi tipyn o arian y bydd y cyfan yn mynd bant ac nid yw Dŵr Cymru/ Cyfoeth Naturiol yn cymryd nac yn derbyn atebolrwydd, a fi fel yr un diniwed sy'n talu'r pris"

"Roedd yn drawmatig iawn pan ddigwyddodd - mae wedi gwneud fy iechyd meddwl yn waeth ac yr wyf yn byw mewn ofn, pan fydda'i yn symud yn ôl, y bydd yn digwydd eto. Lle rwy'n byw nawr, rwy'n teimlo'n unig ac ar fy mhen fy hun - trio ymdopi un dydd ar y tro a stopio fy hun rhag teimlo mod i eisiau lladd fy hun. A dibynnu ar bobl i gael sgwrs gyda nhw ar y ffôn. Yn enwedig dros y misoedd diwethaf gyda COVID a minnau'n ffaelu ymweld â fy rhieni oedrannus na fy ffrindiau a'r teulu."

"Cafodd ein merch hynaf (20) ddiagnosis o PTSD o ganlyniad i'r llifogydd. Mae ar feddyginiaeth, yn cael cwnsela, ac er ei bod wedi trio, allodd hi ddim mynd yn ôl i'r gwaith ac felly wedi gorfod gadael ei swydd gyda BT. Mae ei lles yn hollbwysig i ni. Allwn ni ddim credu na chawson ni gymaint o law â hynny o'r blaen, rhaid bod yna ryw esboniad mwy rhesymol. Mae rhywun yn gyfrifol, rydym yn pryderu'n ofnadwy y gall hyn ddigwydd eto. Mae arnom angen sicrwydd y bydd rhywbeth yn cael ei wneud i atal trychineb arall. Mae lefelau pryder yn uchel bob tro mae'n bwrw."

"Mae straen ac effeithiau ariannol gorfod cau fy musnes oherwydd y llifogydd wedi fy nharo'n fawr. Dwyf i erioed wedi cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith cyn hyn, ond rwyf wedi bod i ffwrdd ers pedwar mis a hanner nawr a rwyf i'n un o'r rhai lwcus am i'r adeiladwyr ddod i mewn yn syth, ar waethaf covid."

"Fe hoffen i tae yna system rybuddio a ninnau wedi gallu lliniaru ein colledion. Rwy'n teimlo nad oedd DC na RCT etc yn rhagweithiol; gobeithio y bydd mesurau ar gael i atal hyn rhag digwydd eto"

"Gallai hyn fod wedi ei atal petai CNC a'r cyngor wedi gweithredu. Rydym nawr yn byw mewn ofn am beth sy'n mynd i ddigwydd eto pan fydd yn bwrw glaw. Rydym yn pryderu y bydd ein heiddo yn colli ei werth o ganlyniad i hyn ac y bydd yn fwy anodd gwerthu

# Atodiad A

petaem eisiau gwneud hynny."

"Os oes modd atal hyn, yna mae angen ei wneud!! Ddylai neb orfod dioddef a cholli popeth oherwydd esgeulustod rhywun arall"

"Hoffwn wybod beth ddigwyddodd y noson honno. Nid dim ond y glaw oedd e, fe ddigwyddodd rhywbeth mwy arwyddocaol y bore yna ar Chwefror 16. Rydym wedi ein llethu a byddwn yn wastad yn byw trwy'r hunllef yna"

"Rwy'n meddwl y gallai fod wedi cael ei atal, ac y mae rhywun yn rhywle wedi gwneud camgymeriad a rydym eisiau atebion"

"Wnaethon ni golli ein hanifail anwes. Roedd ein ci lawr staer. Mae ein plant mor drist, o wybod ei bod hi wedi dioddef a boddi. Rydym eisiau atebion."

"Roedd diffyg cydymdeimlad y cyngor wedi'n gadael am 3 diwrnod heb ddim"

"Wnaeth y cloddiau wrth ein tŷ ddim byrstio, ond fe ddaeth y dŵr lawr stad Trefforest fel tsunami lan wrth y ffatrïoedd. Fe ddigwyddodd mor sydyn, a roedd maint y dŵr yn anghredadwy. Fe ddaeth trwy'r drysau cefn a ffrynt a thrwy'r waliau a'r ffenestri. Rydym wedi cael lot o law sawl gwaith ac fe ddaliodd yr afon, ond y noson hon, digwyddodd rhywbeth arall. NID dim ond lot o law oedd e, yn sicr."

"Fe gollais i 'nghar yn y llifogydd. Bu'n amser straenllyd iawn. Person sengl ydw i. Rwyf nawr yn byw gyda fy rhieni mewn tŷ bychan 1 1/2 ystafell wely. Rwy'n dal i fynd i'r gwaith. Mae'r holl brofiad wedi bod yn erchyll."

"Wnaeth y cyngor ddim byd nes ei bod yn rhy hwyr."

"Dim digon o gefnogaeth, dim golwg o AS nac AM yn Ponty"

"Mae'n dal i 'mhoeni i'n bersonol, wrth gwrs – allai hyn/fydd hyn yn digwydd eto?? Buaswn yn cefnogi ymchwiliad annibynnol oherwydd -
a. Dyma'r llifogydd gwaetha ers i mi gofio, a rwy'n 70 oed
b. COST cyffredinol ariannol y llifogydd i'r trethdalwr A'R effaith negyddol gafodd hyn ar ardal RCT. Gweld lluniau o ganol y dref dan droedfeddi lawer o ddŵr.
c. Yr effaith yn feddyliol, corfforol ac ariannol ar drigolion a busnesau'r ardal. Eto, i swnio'n negyddol, efallai y bydd busnesau yn ystyried adleoli? Mae angen i'r busnesau hyn wybod na fydd pethau'n cael eu sgubo dan y carped. Mae angen eu hargyhoeddi i fod yn hyderus i aros yn RCT.
d. Dim gogwydd gwleidyddol. Byddai mwyafrif o un blaid fwy na thebyg yn arwain at ragfarn, neu byddai pobl yn tybio y byddai yna ragfarn!
e. Mae annibyniaeth yn awgrymu tegwch, gwirionedd, ffeithiau a DIM malu c***u!
f. Rhoi'r gorau i sibrydion a rhoi ffeithiau yn eu lle
g. Arwain at argymhellion y gellir eu harchwilio a chynllunio/goruchwylio camau pendant.
h. Os bydd angen, mwy na dim ond dysgu o gamgymeriadau, ond dal hefyd pobl/sefydliadau i gyfrif."

"Buasem wrth ein bodd i gael atebion am BETH DDIGWYDDODD Y NOSON HONNO!"

Plaid Cymru
Party of Wales


Cysylltwch

Ysgrifennwch:
68 Heol Pontypridd
Porth
CF39 9PL

E-bost:
leanne.wood@senedd.cymru

Ffoniwch y Swyddfa:
01443 681420

Get in touch

Write to:
68 Heol Pontypridd
Porth
CF39 9PL

Email:
leanne.wood@senedd.wales

Phone the office:
01443 681420